

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER GOLFANOD Y MYNYDD

Cyflwyniad

Mae golfan y mynydd (*Passer montanus*, tree sparrow) yn gefnder gwledig llai o faint i rywogaeth fwy cyfarwydd sef aderyn y to. Yn wahanol i'r rhywogaeth honno, mae patrwm plu'r iâr a'r ceiliog yr un fath yn achos golfanod y mynydd, a'r gwahaniaeth pennaf rhwng y rhywogaethau yw'r cap cochfrown a'r smotyn du ar y bochau gwyn. Mae golfanod y mynydd yn lled-gytrefol, gan nythu mewn grwpiau llac, a hynny'n bennaf mewn tyllau mewn coed. Mae'r parau'n cael



dwy neu dair nythaid dros yr haf ac ar ôl hynny mae'r adar yn dod at ei gilydd gan ffurfio heidiau bwydo. Eu hoff fwyd yw rhywogaethau o chwyn sydd â hadau bychain, a arferai fod yn llawer mwy cyffredin nag ydynt erbyn hyn ar dir â'r. Hefyd mae golfanod y mynydd yn bwyta anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Mae golfanod y mynydd yn ddigon parod i ddefnyddio blychau nythu, a gellir eu denu i erddi drwy roi bwyd ar eu cyfer. Mae'r poblogaethau'n tueddu i aros yn eu hunfan, ond o bryd i'w gilydd mae heidiau mawr yn gallu ymfurfio yn yr hydref gan fynd ar grwydr.

Yn ôl pob golwg y boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin yw'r unig boblogaeth sylweddol sydd ar ôl yng ngorllewin Cymru, gan gyfrif o bosibl am 70-80% neu fwy o holl boblogaeth Cymru. Yma, yn Sir Gaerfyrddin, y rhan honno o Ddyffryn Tywi sydd rhwng Llangadog a Chaerfyrddin yw cynefin pennaf golfanod y mynydd, er bod poblogaethau pellennig ger Pentwyn ac efallai mewn mannau eraill. Yn Nyffryn Tywi fe'u cyfyngir bron yn gyfan gwbl i'r gorlifdir a phrin iawn y'u gwelir yn bell o'r afon. Mae'r cynefin glaswelltir hwn yn un anarferol i olfanod y mynydd, gan taw eu cynefin arferol yw ardaloedd lle mae ffermio cymysg neu ffermio tir â'r yn digwydd. Mae cynefinoedd amrywiol Dyffryn Tywi - sy'n cynnwys coed llawn dwf, perthi, traethellau graeanog ar yr afon, a'r llystyfiant llysieuol a glaswelltog a geir ar lannau'r afon ac ar y gwlyptiroedd cysylltiedig - yn cynnig y cysgod a'r bwyd sydd eu hangen ar y golfanod.

Mae digonedd o greaduriaid di-asgwrn-cefn - megis mosgitos - i'w cael yn y ffosydd a'r llystyfiant dyfrol, sy'n ffynhonnell fwyd bwysig pan fo cywion i'w bwydo. Mae *Phalaris* a gweiriau tal eraill yn ogystal â phlanhigion sy'n gyforiog o hadau, megis y dinboeth, yn denu adar llawn dwf ac adar ifanc, a gwelir heidiau o hyd at 50 o adar o bryd i'w gilydd. Yn ogystal mae'r nifer cynyddol o gaeau indrawn yn denu'r adar hyn pan fônt yn cael eu cynaeafu, er mai am ryw 2 neu 3 wythnos yn unig y bydd y caeau hyn yn ffynhonnell fwyd.

Ymhlith y rhesymau dros y dirywiad yn niferoedd golfanod y mynydd y mae'r canlynol: y newidiadau sydd wedi bod o ran arferion amaethu, gan effeithio ar amrywiaeth o adar tir amaeth; y gostyngiad o ran niferoedd rhywogaethau o chwyn, gan olygu bod llai o hadau ar gael; rheolaeth fwy dwys ar borfeydd; y lleihad sydd wedi bod o ran niferoedd pryfed yn sgil colli gwlyptiroedd; draenio tir; a cholli llecynnau nythu.

Datganiad o Weledigaeth ac Amcanion

Y weledigaeth ar gyfer y rhywogaeth hon yn Sir Gaerfyrddin yw cynyddu'r boblogaeth drwy reoli cynefinoedd mewn modd cydnaws, gan helaethu'r dosbarthiad. Bydd unrhyw gamau gweithredu yn ceisio cyflawni un neu ragor o'r amcanion canlynol:

- TS1** Cynnal a chynyddu maint y boblogaeth a'i dosbarthiad yn Sir Gaerfyrddin
- TS2** Casglu data ynghylch dosbarthiad a statws golfanod y mynydd yn Sir Gaerfyrddin
- TS3** Cynyddu ymwybyddiaeth o olfanod y mynydd yn Sir Gaerfyrddin a rhoi cyngor ynghylch rheoli cynefinoedd ar eu cyfer

Crynodeb o'r camau gweithredu a gyflawnwyd gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk) neu ewch i wefan y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth - <http://ukbars.defra.gov.uk>:

- Darparwyd blychau nythu yn y llecynnau hynny yn Nyffryn Tywi lle gwyddys bod golfanod y mynydd yn byw – Tywi Afon yr Oesoedd / Clwb Adar Sir Gaerfyrddin / Gwirfoddolwyr
TS1
- Darparwyd gorsafoedd bwydo yn Nyffryn Tywi – 5 safle‡ – Cyngor Sir Caerfyrddin / Gwirfoddolwyr
TS1
- Fferm Aberdeunant – Prosiect blychau nythu ar gyfer golfanod y mynydd gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar – Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar / yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
TS1
- Mae poblogaeth Dyffryn Tywi yn cael ei monitro'n flynyddol – Clwb Adar Sir Gaerfyrddin
TS2
- Lluniwyd taflen wybodaeth ynghylch gwarchod golfanod y mynydd i berchenogion tir - Tywi Afon yr Oesoedd
TS3
- Dosbarthwyd datganiad i'r wasg er mwyn hyrwyddo cofnodi golfanod y mynydd yn Nyffryn Tywi a'r tu hwnt – Cyngor Sir Caerfyrddin
TS3

2014

- Cynhaliwyd prosiect blynyddol gan wirfoddolwyr i fwydo'r adar hyn ar bum safle yn Nyffryn Tywi – CSC

Y camau arfaethedig yn y dyfodol

- Darparu panel gwybodaeth ynghylch golfanod y mynydd ym maes parcio Dryslwyn – Cyngor Sir Caerfyrddin
TS3
 - Clustnodi safleoedd addas y tu hwnt i Ddyffryn Tywi er mwyn targedu gwaith cynnal arolygon yn y dyfodol - Clwb Adar Sir Gaerfyrddin
TS2
- ‡ Cyllidwyd trwy grant Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

Dolenni defnyddiol

- [RSPB – tree sparrow](#)
- [Carmarthenshire Bird Club](#)
- Tree sparrow.com



Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

[Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin](#) Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn cynnwys y sefydliadau canlynol: [Cyngor Sir Caerfyrddin](#), [Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru](#), [Cyfoeth Naturiol Cymru](#), [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar](#), [Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir](#), [Clwb Adar Sir Gaerfyrddin](#), [Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru](#), [Gwarchod Glöynnod Byw](#), [Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin](#), [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#), [Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain](#), [Naturiaethwyr Llanelli](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod](#), [Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)